PDC / APW

PANEL DYFARNU CYMRU
ADJUDICATION PANEL FOR WALES

# Gwybodaeth i dystion

Mae Panel Dyfarnu Cymru ("y Panel Dyfarnu") yn gorff annibynnol a gafodd ei sefydlu o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000"). Rôl y Panel Dyfarnu yw ffurfio tribiwnlysoedd i ystyried a yw aelodau etholedig neu gyfetholedig o gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned, awdurdodau tân ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru ("awdurdodau perthnasol") wedi torri cod ymddygiad statudol eu hawdurdod.

Mae'r canllaw hwn yn nodi sut y gallech gael cais i fod yn dyst yng ngwrandawiad y tribiwnlys, y drefn i'w dilyn a sut i hawlio treuliau am fynd i wrandawiad.

## Sut mae tystion yn cael eu galw i fynd i wrandawiadau tribiwnlysoedd?

Gall tystion gael eu galw gan yr aelod sy'n destun yr honiadau o dorri'r cod ymddygiad. Os bydd aelod wedi gofyn i chi fod yn bresennol, yr aelod hwnnw fydd yn gyfrifol am roi gwybod i chi am y gwrandawiad a chadarnhau eich presenoldeb. Bydd yr aelod yn cael ffurflen i'w llenwi er mwyn rhoi gwybodaeth amdanoch chi ac unrhyw ofynion arbennig a all fod gennych. Gallwch hefyd gadarnhau a hoffech roi tystiolaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gall y tribiwnlys ei hun alw ar dystion hefyd. Os bydd y tribiwnlys am alw ar dystion, bydd y Cofrestrydd yn cysylltu â chi i roi gwybod i chi am y gwrandawiad a chadarnhau eich presenoldeb. Byddwch yn cael ffurflen i'w llenwi. Bydd gofyn i chi gadarnhau eich presenoldeb a chewch gyfle i roi gwybod i ni am unrhyw ofynion arbennig a nodi p'un a hoffech roi tystiolaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

## Gwysio Tystion

Gall y tribiwnlys wysio tystion os oes angen hefyd. Gall y tribiwnlys wneud hyn ar ei ben ei hun neu ar gais yr aelod. Dim ond os bydd tyst wedi gwrthod mynychu gwrandawiad y bydd y tribiwnlys yn cyflwyno gwŷs.

## Rôl y Tyst

Bydd hawl gan yr aelod sydd wedi'i gyhuddo i roi tystiolaeth, galw ar dystion, holi unrhyw dystion ac annerch y tribiwnlys am y dystiolaeth a phwnc y dyfarniad yn gyffredinol.

Gall y tribiwnlys gyfyngu ar nifer y tystion y gall y person sydd wedi'i gyhuddo alw arnynt os yw'n teimlo y byddai hynny'n helpu i weinyddu'r achos mewn ffordd effeithlon a synhwyrol. Gall tribiwnlys gyflwyno cyfyngiadau o'r fath, er enghraifft, pan fydd yn ymddangos i'r tribiwnlys na fydd y tystion dan sylw yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth na ffeithiau newydd pwysig, neu pan fydd y person sydd wedi'i gyhuddo yn galw ar ormod o dystion i roi testimoni ynglŷn â'i gymeriad.

Ni all tystion eistedd yn yr oriel gyhoeddus cyn i'r tribiwnlys alw arnynt i roi tystiolaeth. Bydd man aros penodedig ar gael i'r tystion nes y byddant yn cael eu galw.

Gall tystiolaeth gerbron y tribiwnlys gael ei rhoi ar lafar neu, os bydd y tribiwnlys yn gorchymyn hynny, drwy affidafid neu ddatganiad ysgrifenedig. Ar unrhyw gam yn yr achos, gall y tribiwnlys orchymyn bod unrhyw berson sydd wedi gwneud datganiad ysgrifenedig yn mynychu'r gwrandawiad.

Gall y tribiwnlys gael unrhyw ffeithiau sy'n ymddangos yn berthnasol yn ei farn ef, hyd yn oed pe byddai'r dystiolaeth honno yn annerbyniol mewn achosion gerbron llysoedd cyfreithiol. Ni fydd y tribiwnlys yn gwrthod derbyn unrhyw dystiolaeth sy'n dderbyniol yn gyfreithiol ac sy'n berthnasol.

Efallai y bydd gofyn i'r person sydd wedi'i gyhuddo a thystion roi tystiolaeth ar lw neu ar gadarnhad. Gall tystion gael eu rhyddhau gyda chytundeb y person sydd wedi'i gyhuddo neu'i gynrychiolydd ar ôl iddynt roi tystiolaeth.

## Treuliau i dystion

Efallai y bydd tystion yn mynd i dreuliau teithio a chynhaliaeth ac efallai y bydd angen iddynt gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith er mwyn mynd i dribiwnlys achos sydd wedi'i drefnu gan Banel Dyfarnu Cymru. Ar gais y tyst, bydd y Panel Dyfarnu yn talu treuliau teithio a chynhaliaeth rhesymol ac iawndal am golli amser gwaith os bu'n rhaid i'r tyst hwnnw fynychu tribiwnlys.

Bydd y treuliau teithio a chynhaliaeth a'r iawndal y cytunir arno am golli amser gwaith yn cael eu talu yn unol â'r cyfraddau yn y cynllun hwn.

Ni fydd y Panel Dyfarnu yn talu treuliau unrhyw drydydd parti sy'n mynychu tribiwnlys achos gyda thyst, fel ffrind, perthynas neu gynrychiolydd cyfreithiol.

Mae rhagdybiaeth y bydd tystion yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (dosbarth safonol) oni bai bod y Panel Dyfarnu yn cytuno ymlaen llaw bod trefniadau eraill yn rhatach neu'n angenrheidiol.

Gall tyst wneud cais am iawndal am golli amser os yw wedi colli incwm er mwyn mynd i dribiwnlys achos. Bydd yn cael iawndal yn unol â chyfraddau'r lwfans am golled ariannol y mae'r Gwasanaeth Llysoedd yn ei dalu i dystion.

Mae'n rhaid i geiswyr ddarparu dogfennaeth lawn i gefnogi eu cais. Yn achos cais am golli incwm, rhaid darparu tystiolaeth i ddangos bod incwm wedi cael ei golli.

## Treuliau eraill

Ar gais ymlaen llaw, gall y Panel Dyfarnu gytuno i dalu unrhyw dreuliau ychwanegol ac angenrheidiol yr aeth unigolyn iddynt am fod yn rhaid iddo fynychu tribiwnlys achos. Er enghraifft, costau llungopïo a ffioedd gofal plant.

Mae'n rhaid i geiswyr roi dogfennaeth lawn i'r Panel Dyfarnu er mwyn cefnogi eu cais.

## Treuliau tystion sy'n cael eu gwysio

O dan baragraff 8 o 'Reoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) 2001 (OS 2001 Rhif 2288)', nid oes yn rhaid i berson sy'n cael ei wysio i ymddangos gerbron tribiwnlys a gafodd ei sefydlu gan Banel Dyfarnu Cymru wneud hynny oni bai ei fod yn cael tâl am y treuliau angenrheidiol.

## I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

**Cyfeiriad:** Cofrestrydd y Panel
Panel Dyfarnu Cymru
Uned Tribiwnlys Cymru
PO BOX 100
Llandrindod
LD1 9BW

**Ffôn:** 03000 259 805
**E-bost:** adjudication.panel@llyw.cymru
**Gwefan:** https://paneldyfarnu.llyw.cymru

## Rhestr o Lwfansau

### 1. Lwfansau Teithio

| | | |
|---|---|---|
| a) | Bws neu drên: | Pris tocyn dwyffordd dosbarth safonol neu unrhyw docyn rhad sydd ar gael. |
| b) | Beiciau modur: | 24c y filltir |
| c) | Cerbydau modur | 45c y filltir |
| ch) | Os byddwch yn cario tyst arall fel teithiwr: | 5c y filltir fesul teithiwr |
| d) | Tacsi | |
| | i Mewn argyfwng, pan nad oes trafnidiaeth gyhoeddus resymol ar gael: | Pris gwirioneddol y daith a rhodd resymol |
| | ii Os oes trafnidiaeth gyhoeddus resymol ar gael: | Y gyfradd ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus uchod |

### 2. Lwfans Cynhaliaeth

| | | |
|---|---|---|
| a) | Dros 5 awr: | £4.50 |
| b) | Dros 10 awr: | £9.75 |

### 3. Lwfans am Golled Ariannol[1]

a) Pan fo'r cyfnod pan fydd tyst yn colli enillion neu fuddion neu'n mynd i dreuliau ychwanegol yn llai na phedair awr, swm y golled/treuliau neu £33.50 pa un bynnag sydd leiaf.

b) Pan fo'r cyfnod yn fwy na phedair awr, swm y golled/treuliau neu £67.00 y diwrnod pa un bynnag sydd leiaf.

[1]Lwfans am golled ariannol y mae'r Gwasanaeth Llysoedd yn ei dalu i dystion